| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **16 MAWRTH 2017** |
| **TEITL** | **YMATEB Y CYFLOGWYR I’R YMGYNGHORIAD AR Y DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Fel yr adroddwyd i’r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 19 January 2017, mae’n ofynnol arnom i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) erbyn 31 Mawrth 2017. Fel rhan o’r adolygiad yma mae’n rhaid i'r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa a chydag unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

**1.2** Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2017, penderfynodd y Pwyllgor Pensiynau ar y polisïau canlynol:

- Oherwydd bod cyfraddau bondiau, sydd yn cael eu defnyddio i gyfrifo ymrwymiadau yn y dyfodol, ar lefel hanesyddol isel ar 31 Mawrth 2013 ond wedi gwella ers hynny a disgwylir cynnydd yn y tymor hirach felly mae’r dychweliadau ychwanegol disgwyliedig o fuddsoddiadau mewn ecwiti wedi ei gosod ar 1.7%. Bydd hyn yn llyfnhau cyfraniadau cyflogwyr dros gyfnod eithriadol a cheir ei adolygu yn y prisiad nesaf gyda’r amcan i ostwng i 1.4% pan mae dychweliadau giltiau yn gwella.

- Ym mhrisiantau 2010 a 2013 parhaodd yr awdurdod gweinyddol gyda’r cyfnodau adfer diffyg fel y ganlyn:
    - Cyrff statudol – 20 mlynedd
    - Grŵp Landrillo Menai - 15 mlynedd
    - Bob cyflogwr arall – gweddill oes gwaith

  Defnyddir y cyfnodau uchod ar gyfer prisiad 2016 hefyd.

- Bydd prif gyrff gyda phwerau codi trethi yn dal i dalu'r un gyfradd cyfraniadau a’r gyfradd 2016/17.

- Ar gyfer codiadau'r prisiad 2016 gellir eu lledaenu dros 6 mlynedd. Bydd cyflogwyr eraill sydd gyda gostyngiad yn eu cyfraddau cyfraniadau yn symud yn syth i'r gyfradd newydd ar 1 Ebrill 2017.

- Mae cyflogwyr sydd mewn diffyg yn talu cyfraniadau cyflogwyr ychwanegol er mwyn adennill y diffyg. Mabwysiadwyd polisi ar gyfer prisiad 2013 i ddatgelir taliadau diffyg fel cyfandaliad arian i'w talu mewn 12 rhandaliad misol fel rhan o'u cyfraniadau cyflogwr. Mae'r polisi hwn yn barhau yn dilyn y prisiad 2016.

**1.3** Ar 20 Ionawr 2017, gyrrwyd llythyr ymgynghorol allan i bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU a'r GMB, yn ymgynghori ar y tri pholisi a nodir yn 1.2 uchod. Gofynnwyd iddynt ymateb gydag unrhyw sylwadau erbyn 28 Chwefror 2017.

## 2. Yr Ymateb

**2.1** Derbyniwyd un ymateb yn cytuno i'r cyfradd cyfraniadau cyflogwr arfaethedig unigol ar gyfer y tair mlynedd nesaf.

## 3. Datganiad Strategaeth Cyllido Arfaethedig

**3.2** Mae copi o'r Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig yn Atodiad 1. Nid oes unrhyw newid o'r fersiwn a gafodd ei gyflwyno i'r pwyllgor hon ar 19 Ionawr 2017 a danfonwyd i'r cyflogwyr fel esbonioir yn rhan 3.1 uchod.

## 4. Argymhelliad

**4.1** Bod y Datganiad Strategaeth Cyllido arfaethedig (yn Atodiad A) yn cael ei fabwysiadu.